# BWRDD PENSIWN

# DYDD LLUN, 22 IONAWR 2024

**YN BRESENNOL (Yn y Siambr):** J. Jones (Cadeirydd)

**Aelodau'r Bwrdd (Yn y Siambr):**
M. Rogers - Cynrychiolydd Pensiynwyr sy'n Aelodau;
M. Evans - Cynrychiolydd Gweithwyr sy'n Aelodau;
Y Cynghorydd A. Lenny - Cynrychiolydd Cyflogwyr sy'n Aelodau;
Y Cynghorydd W.Thomas - Cynrychiolydd Cyflogwyr sy'n Aelodau

**Aelodau'r Bwrdd (Yn Rhithwir):**
T.Bowler - Cynrychiolydd o'r Undeb.
R. Edwards - Cynrychiolydd Cyflogwyr sy'n Aelodau

**Yn bresennol fel sylwedydd (Yn rhithwir):**
Y Cynghorydd D.E.Williams - Cadeirydd Pwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed

**Hefyd yn Bresennol (Yn y Siambr):**
R. Hemingway - Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol;
A. Parnell – Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddi Pensiynau
K. Gerard - Rheolwr Pensiynau
J. Williams – Cyfrifydd Cynorthwyol
E. Evans - Pen-swyddog Gwasanaethau Democrataidd
A. Eynon - Cyfieithydd ar y Pryd

**Hefyd yn bresennol (Yn Rhithwir):**
A. Brown, Ymgynghorydd Annibynnol

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP ac o bell – 2.30yp - 4.18yp**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol yn y cyfarfod.

## 3. COFNODION CYFARFOD Y BWRDD PENSIWN A GYNHALIWYD AR 25 HYDREF 2023

**CYTUNWYD bod cofnodion cyfarfod y Bwrdd Pensiwn a gynhaliwyd ar 25 Hydref 2023 yn cael eu cadarnhau fel cofnod cywir.**

## 4. CYFARFOD PWYLLGOR CRONFA BENSIWN DYFED 15 TACHWEDD 2023

Cafodd y Bwrdd yr adroddiadau a ystyriwyd gan Bwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed ar 15 Tachwedd, fel y nodwyd yng nghofnodion 4.1- 4.10 isod, er mwyn eu hystyried a gwneud sylwadau arnynt.

### 4.1. ADRODDIAD YNGHYLCH YR ACRCHWILIAD O DDATGIADAU ARIANNOL 2022-23

Cafodd y Bwrdd Adroddiad ynghylch yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol 2022-23 ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed a baratowyd gan Archwilio Cymru sy'n rhoi manylion am y materion sy'n codi o'r archwiliad sy'n ofynnol o dan ISA 2022.

Nodwyd mai'r Archwilydd Cyffredinol sy'n gyfrifol am roi barn ynghylch a yw datganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Dyfed yn olwg gywir a theg ar ei sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2023, a'i hincwm a'i gwariant yn ystod y flwyddyn honno. Roedd adroddiad archwilio diamod ynghylch y datganiadau ariannol wedi'i gyhoeddi ac roedd yr adroddiad terfynol wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 27 Hydref 2023.

Nid oedd Archwilio Cymru wedi dod o hyd i unrhyw gamddatganiadau wedi'u nodi yn y datganiadau ariannol a oedd yn dal heb eu cywiro. Roedd nifer o fân wallau cyflwyno yn y datganiadau ariannol drafft wedi'u cywiro gan y rheolwyr.

**CYTUNWYD bod yr Adroddiad ynghylch yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol 2022–23 yn cael ei dderbyn.**

### 4.2. ADRODDIAD BWRDD PENSIWN CRONFA BENSIWN DYFED - 25 HYDREF 2023

Cafodd y Bwrdd adroddiad gan y Cadeirydd Annibynnol, a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf o gyfarfod y Bwrdd Pensiwn ar 25 Hydref, 2023. Yr eitemau a drafodwyd oedd y Datganiad Cyfrifon Cyn-Archwilio, Monitro'r Gyllideb, Diweddariad ar Weinyddu Pensiynau, y Gofrestr Risg, Dyraniad Asedau Strategol, Adroddiad Ymgysylltu Robeco a Benthyca Gwarantau Northern Trust.

**CYTUNWYD bod Adroddiad Bwrdd Pensiwn Cronfa Bensiwn Dyfed ar 25 Hydref, 2023 yn cael ei nodi.**

### 4.3. MONITRO CYLLIDEB 1 EBRILL 2023 - 30 MEDI 2023

Rhoddodd y Bwrdd ystyriaeth i adroddiad Monitro Cyllideb Cronfa Bensiwn Dyfed a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyllidebol ddiweddaraf am y cyfnod 1 Ebrill 2023 - 30 Medi 2023. Cafodd y Pwyllgor wybod am danwariant o'i gymharu â chyllideb o £1.6m.

**CYTUNWYD bod yr adroddiad yn cael ei nodi.**

## 4.4. CYSONI ARIAN PAROD FEL YR OEDD AR 30 MEDI 2023

Rhoddodd y Bwrdd ystyriaeth i adroddiad Monitro Cyllideb Cronfa Bensiwn Dyfed a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyllidebol ddiweddaraf am y cyfnod 1 Ebrill 2023 - 30 Medi 2023. Cafodd y Pwyllgor wybod am danwariant o'i gymharu â chyllideb o £1.6m.

**CYTUNWYD bod yr adroddiad yn cael ei nodi.**

## 4.5. ADRODDIAD GWEINYDDU PENSIYNAU

Cafodd y Bwrdd adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am Weinyddu Pensiynau.

Roedd y Rheolwr Pensiynau wedi rhoi diweddariad ar y gweithgareddau yn y gwasanaeth Gweinyddu Pensiynau ac roedd yn cynnwys materion rheoleiddiol, y gofrestr torri amodau, I-Connect, cysoniad GMP a llif gwaith.

Mewn ymateb i ymholiad, dywedodd y Rheolwr Pensiynau fod amserlen gyfreithiol o ran cyflwyno'r dangosfwrdd pensiwn. Y dyddiad targed o ran gweithredu yw 30 Medi, 2025. Roedd goblygiadau o ran adnoddau ac mae adroddiad y swyddog dirprwyedig wedi'i gyflwyno i'r Swyddog Monitro Adran 151 i'w ystyried.

**CYTUNWYD bod yr Adroddiad Gweinyddu Pensiynau mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Dyfed yn cael ei nodi.**

## 4.6. ADRODDIAD TORRI AMODAU

Cafodd y Bwrdd yr Adroddiad Torri Amodau, mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Dyfed, i'w ystyried. Nodwyd bod Adran 70 o Ddeddf Pensiynau 2004 yn pennu'r ddyletswydd gyfreithiol i roi gwybod am achosion o dorri'r gyfraith. Mae Côd Ymarfer rhif 14, paragraffau 241 i 275, a gyhoeddwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau ym mis Ebrill 2015, yn rhoi cyfarwyddyd ynghylch riportio'r achosion hyn o dorri'r gyfraith.

Fel y dwedwyd eisoes wrth y Pwyllgor, roedd Cyflogwr wedi methu'n rheolaidd dalu'r cyfraniadau gofynnol i'r Gronfa, ac amcangyfrifwyd bod £7,230.56 yn ddyledus. Rhoddwyd gwybod am hyn i'r Rheoleiddiwr Pensiynau ac mae'r Cyflogwr bellach wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr.

**CYTUNWYD bod yr Adroddiad Torri Amodau mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Dyfed yn cael ei nodi.**

## 4.7. COFRESTRE RISG

Cafodd y Bwrdd adroddiad i'w ystyried a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Gofrestr Risg.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod y Gofrestr Risg yn ddogfen waith sy'n tynnu sylw at yr holl risgiau a nodwyd mewn perthynas â swyddogaethau Cronfa Bensiwn Dyfed. Nodwyd bod y gofrestr yn cynnwys manylion yr holl risgiau a nodwyd; asesiad o'r effaith bosibl, y tebygolrwydd a'r statws risg; y mesurau rheoli risg sydd ar waith; y swyddog cyfrifol a'r dyddiad targed (os yw'n berthnasol).

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y gofrestr risg yn cael ei monitro a'i hadolygu'n rheolaidd i sicrhau bod risgiau wedi cael eu nodi a'u hasesu. Dywedwyd nad oedd unrhyw newidiadau ers cyfarfod blaenorol y pwyllgor.

Mewn ymateb i ymholiad, rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod staff yn cael hyfforddiant perthnasol, gan ennill cymwysterau i sicrhau eu bod yn fedrus yn eu meysydd gwaith, sy'n darparu parhad o ran gwaith. Pe bai aelod o staff yn gadael, byddai angen hyfforddiant, gan wneud hyn yn risg ganolig.

**Cytunwyd bod adroddiad y gofrestr risg yn cael ei nodi.**

## 4.8. CYNLLUN HYFFORDDI 2023-2024

Cafodd y Bwrdd Gynllun Hyfforddi Cronfa Bensiwn Dyfed ar gyfer 2023-2024, a oedd yn darparu manylion am gyfarfodydd, digwyddiadau hyfforddi a'r aelodau a'r swyddogion y rhagwelwyd y byddent yn mynychu'r digwyddiadau.

**CYTUNWYD bod Cynllun Hyfforddi Cronfa Bensiwn Dyfed ar gyfer 2023/24 yn cael ei nodi.**

## 4.9. DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU (PPC)

Bu'r Bwrdd yn ystyried y wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau a chynnydd Partneriaeth Pensiwn Cymru gan gynnwys gwaith sydd wedi'i gwblhau ers cyfarfod diwethaf y Cyd-bwyllgor Llywodraethu a chamau nesaf/blaenoriaethau Partneriaeth Pensiwn Cymru.

Codwyd yr arsylwadau/ymholiadau canlynol ynghylch yr adroddiad ac ymatebwyd iddynt:-

- Mewn ymateb i ymholiad, nododd Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn fod cronfa Partneriaeth Pensiwn Cymru ar hyn o bryd yn y 4edd safle ganraddol yn nhabl cynghrair y gronfa bensiwn dros 30mlynedd ond byddai'n anodd cymharu'r gronfa sy'n rhoi'r adenillion gorau, gan fod yr holl gronfeydd yn wahanol.

·Nodwyd y byddai'r Dyraniad Asedau Strategol yn cael ei drafod yn y cyfarfod nesaf.

**CYTUNWYD bod y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cael ei nodi.**

**4.10. COFNODION DRAFFT CYFARFOD Y PWYLLGOR PENSIWN 15 TACHWEDD 2023**

**CYTUNWYD bod cofnodion drafft cyfarfod Pwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2023 yn cael eu nodi.**

**5. MONITRO CYLLIDEB Y BWRDD PENSIWN 1 EBRILL 2023 - 31 RHAGFYR 2023**

Cafodd y Bwrdd adroddiad Monitro Cyllideb y Bwrdd Pensiwn fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2023. Cyfanswm y gwariant gwirioneddol oedd £17.5k. Y gwariant a ragwelwyd ar gyfer y flwyddyn oedd £1.9k o danwariant o gymharu â'r gyllideb.

**CYTUNWYD bod yr adroddiad yn cael ei nodi.**

**6. CYLLIDEB Y BWRDD PENSIWN 2024-25**

Rhoddodd y Bwrdd ystyriaeth i Gyllideb Cronfa Bensiwn Dyfed ar gyfer 2024-25 a oedd yn unol â'r gyllideb ar gyfer 2023-24.

Nodir bod cyllideb ar gael ar gyfer hyfforddiant a theithio.

**CYTUNWYD bod y Gyllideb ar gyfer 2024-25 yn cael ei chymeradwyo.**

**7. CYNLLUN GWAITH Y BWRDD PENSIWN 2024**

Bu'r Bwrdd yn ystyried Cynllun Gwaith y Bwrdd Pensiwn ar gyfer 2024 a oedd yn amlinellu gwaith arfaethedig y Bwrdd Pensiwn a'r eitemau i'w cyflwyno ym mhob cyfarfod.

Nodwyd bod dyddiadau wedi'u darparu yn y cynllun.

**CYTUNWYD bod Cynllun Gwaith y Bwrdd Pensiwn ar gyfer 2024 yn cael ei nodi.**

**8. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr**

**eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf. Gan ei fod yn ymwneud â gwybodaeth ynghylch materion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (gan gynnwys yr Awdurdod sy'n cadw'r wybodaeth honno.**

## 9. ADRODDIAD YMYSYLLTU ROBECO 1 EBRILL 2023 - 30 MEHEFIN 2023

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 8 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn cael effaith andwyol ar y Gronfa Bensiwn drwy beryglu perfformiad buddsoddi.**

Bu'r Bwrdd yn ystyried Adroddiad Ymgysylltu Robeco ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2023 – 30 Mehefin 2023.

**CYTUNWYD bod yr adroddiad yn cael ei nodi.**

## 10. ADOLYGIAD BENTHYCA GWARANNAU BYD-EANG HYD AR 30 MEHEFIN 2023

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 8 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn cael effaith andwyol ar y Gronfa Bensiwn drwy beryglu perfformiad buddsoddi.**

Bu'r Bwrdd yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am fenthyca stoc yn ystod chwarter 2, fel yr oedd ar 30 Mehefin, 2023.

**CYTUNOD bod Adolygiad Benthyca Global Securities fel yr oedd ar 30 Mehefin, 2023 yn cael ei nodi.**

## 11. ADRODDIAD PERFFORMIAD A RISG YMGYNGHORYDD BUDDSODDI ANNIBYNNOL 30 MEDI 2023

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 8 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn cael effaith andwyol ar y Gronfa Bensiwn drwy beryglu perfformiad buddsoddi.**

Ystyriodd y Bwrdd Adroddiad yr Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol ar Berfformiad a Risg, a roddai fanylion mewn perthynas â pherfformiad y Rheolwyr Buddsoddi ar gyfer pob chwarter, pob 12 mis a chyfnodau treigl o 3 blynedd, gan ddod i ben ar 30 Medi 2023. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys cefndir y farchnad fyd-eang a materion i'r bwrdd pensiwn eu hystyried.

**CYTUNWYD bod yr adroddiad Perfformiad a Risg gan yr Ymgynghorydd Annibynnol fel yr oedd ar 30 Medi, 2023 yn cael ei nodi.**

## 12. ADRODDIAD PERFFORMIAD NORTHERN TRUST 30 MEDI 2023

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 8 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn cael effaith andwyol ar y Gronfa Bensiwn drwy beryglu perfformiad buddsoddi.**

Bu'r Bwrdd yn ystyried adroddiad Perfformiad Northern Trust a oedd yn nodi perfformiad Cronfa Bensiwn Dyfed fel yr oedd ar 30 Medi, 2023. Roedd yr adroddiad yn darparu dadansoddiad perfformiad ar lefel cronfa gyfan a chan y Rheolwr Buddsoddi am y cyfnodau hyd at y cychwyn.

.

**CYTUNWYD bod Adroddiad Perfformiad Northern Trust fel yr oedd ar 30 Medi 2023 yn cael ei nodi.**

## 13. ADRODDIADAU'R RHEOLWR BUDDSODDI AR 30 MEDI 2023

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 8 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn cael effaith andwyol ar y Gronfa Bensiwn drwy beryglu perfformiad buddsoddi.**

Bu'r Bwrdd yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad y Rheolwr Buddsoddi fel yr oedd ar 30 Medi, 2023.

**CYTUNWYD bod adroddiadau'r Rheolwr Buddsoddi fel yr oeddent ar 30 Medi 2023 yn cael eu nodi.**

| ________________________ | ________________ |
|---|---|
| **CHAIR** | **DATE** |